

Defnyddio data i gyfrannu at Strategaethau Gwrth-fwlio a'u gwerthuso

Mae gan bob llywodraeth genedlaethol ei deddfwriaeth, ei pholisi a'i chanllawiau ei hun ynghylch atal a mynd i'r afael â bwlio, cadw plant yn ddiogel a hyrwyddo'u llesiant.

Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i holl ysgolion Cymru a Lloegr, neu awdurdodau yn yr Alban, roi'r sylw dyledus i'r [Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) (PSED). Mae hyn yn golygu bod angen i dîm arweinyddiaeth eich ysgol ystyried y ddyletswydd yma'n weithredol wrth ddatblygu eich polisi gwrth-fwlio, ac wrth gasglu ac adolygu tystiolaeth o fwlio yn eich ysgol. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn targedu'ch ymdrechion yn effeithlon i atal a mynd i'r afael â bwlio ar sail rhagfarn.

Mae'r PSED yn cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r ddogfen yn manylu ar rai o'r dulliau y mae ysgolion wedi dweud wrthym sy'n ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â bwlio ar sail rhagfarn a mathau eraill o fwlio. Mae'n canolbwyntio ar gofnodi digwyddiadau er mwyn cyfrannu at strategaethau gwrth-fwlio yn hytrach nag ar sut i ymateb i achosion unigol o fwlio.¹

Fel y dengys ein [cyfres o astudiaethau achos](#) mae ysgolion sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â bwlio yn casglu data er mwyn deall pa fath o fwlio sy'n digwydd. Maent hefyd yn defnyddio'r data yma i gyfrannu at eu mesurau gwrth-fwlio ac i asesu effeithiolrwydd eu mentrau.

Un pwynt a ddysgwyd yn eglur yw nad oes unrhyw un ffordd unigol i gasglu data ar fwlio. Efallai y bydd yr hyn sy'n gweithio orau mewn un ysgol yn llai priodol neu effeithiol mewn ysgol arall. Waeth pa ffordd y bydd ysgolion yn ymdrin â'r mater, mae'r ysgolion rydym wedi siarad â hwy wedi pwysleisio'r angen i fod yn rhagweithiol

¹ Mae gan amrediad o gyrrff y llywodraeth a sefydliadau gwrth-fwlio wybodaeth ynglŷn â mynd i'r afael ag achosion o fwlio. Gweler er enghraifft: www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tips_for_tackling_discriminatory_bullying.pdf

wrth geisio gwybodaeth am fwlio, sicrhau bod yna ffyrdd systematig i bobl roi gwybod amdano, ei ddadansoddi ac ymateb iddo. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i hyn fod yng nghyd-destun diwylliant lle mae disgwyliadau eglur o ran gwerthoedd ac ymddygiad, lle cynorthwyr plant a phobl ifanc i roi gwybod am eu pryderon, a lle cynorthwir athrawon i ymateb iddynt yn hyderus.

Er y gallai dulliau unigol yr ysgolion o ymdrin â'r mater fod yn wahanol, gwelsom fod ganddynt rai themâu yn gyffredin.

1. Gosod y lefel o'r brig: polisi gwrth-fwlio, arweinyddiaeth a llywodraethiant

Diwylliant ac ethos agored

Un o'r cydrannau allweddol wrth fynd i'r afael â bwlio yw i ysgolion greu diwylliant ac ethos cryf sy'n hyrwyddo amrywiaeth, yn parchu gwahaniaethau ac yn gosod llesiant disgyblion yn y canol yng nghenhadaeth yr ysgol. Mae'r data'n galluogi ysgolion i ddeall pa fwlio sy'n digwydd, ac yna cyfrannu at y strategaethau gwrth-fwlio a gyflwynasant a'u gwerthuso er mwyn gwneud ethos yr ysgol yn realiti byw bob dydd. Gall data dynnu sylw at agweddau negyddol ar fywyd yr ysgol, ond byddai anwybyddu hyn yn gwneud anghymwynas â phobl ifanc a allai fod angen cymorth.

Y polisi gwrth-fwlio

Mae polisi gwrth-fwlio cryf yn cydnabod gwahanol nodweddion gwarchoddedig ac yn gosod disgwyliadau eglur ar gyfer ymddygiad. Mae'n manylu ar: sut i roi gwybod am ddigwyddiadau bwlio; sut y bydd athrawon yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am fwlio i atal a mynd i'r afael ag ef, ac i gyfrannu at adolygiadau rheolaidd o'r polisi. Bydd sicrhau dealltwriaeth a pherchnogaeth eang o'r polisi yn helpu i hybu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo y gallant roi gwybodaeth am ddigwyddiadau bwlio gan fod yn hyderus y bydd rhywun yn cymryd camau yn ei erbyn.

Arweinyddiaeth a Llywodraethiant

Dylai arweinwyr ysgolion ymroi i fynd i'r afael â bwlio ac i roi proffil uchel i'w polisi gwrth-fwlio. Dylai pawb - yn staff, disgyblion, rhieni ac yn ofalwyr - wybod beth mae'r polisi'n ei ddweud, a sut i'w weithredu.

Mae gan lywodraethwyr a chyrff rheoli rôl eglur i'w chwarae wrth herio a chefnogi ysgolion i sicrhau bod polisiau gwrth-fwlio a'r camau gweithredu y mae'r ysgol yn eu cymryd i fynd i'r afael â bwlio yn rhai priodol ac effeithiol.

Hyfforddiant a chymorth i staff

Mae angen i staff deimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch trin materion bwlio. Mae angen iddynt hefyd wybod y bydd eu huwchgwydweithwyr yn eu cefnogi pan fyddant yn rhoi gwybod am broblem. Mae hyfforddiant staff rheolaidd yn hanfodol wrth alluogi athrawon i deimlo'n hyderus pan fyddant yn trin amrywiaeth o wahanol fathau o fwlio. Er enghraifft, mae angen i athrawon dderbyn y newyddion diweddaraf am y modd y gall disgyblion fod mewn perygl trwy seiberfwlio, gan gynnwys pa apiau a chyfryngau maent yn eu defnyddio. Gall archwiliadau helpu ddarganfod lefelau'r wybodaeth neu'r sgiliau sydd gan y staff o ran bwlio ar sail hunaniaeth.

Rhestr Wirio

- A yw ethos a gwerthoedd eich ysgol yn hyrwyddo amrywiaeth a pharch at wahaniaeth?
- A yw eich polisi gwrth-fwlio yn adlewyrchu'r gwahanol nodweddion gwarchoddedig ac yn gosod disgwyliadau eglur ar gyfer ymddygiad?
- A yw eich polisi gwrth-fwlio yn manylu ar sut y bydd eich ysgol yn casglu ac yn defnyddio data i atal a mynd i'r afael â bwlio.
- A yw polisi gwrth-fwlio eich ysgol yn cael cyhoeddusrwydd ymhob rhan o gymuned yr ysgol, ac yw disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yn ei ddeall?
- A oes yna ffyrdd o hyrwyddo gwell dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r polisi, er enghraifft trwy annog disgyblion i ddatblygu polisi gwrth-fwlio'r ysgol, neu gynhyrchu eu fersiwn eu hunain ohono?
- Sut fyddwch chi'n cefnogi staff i fynd i'r afael â bwlio, er enghraifft, trwy adolygu a oes gan staff yr ysgol y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i fynd i'r afael â bwlio ar sail rhagfarn a gwahanol fathau o fwlio.

2. Rhoi gwybod am ddiwyddiadau bwlio

Adroddiadau uniongyrchol

Mae angen i ddisgyblion gael ffyrdd eglur o roi gwybod am eu pryderon a gofyn am help. Gallai'r rhain gynnwys ffurflenni papur i'r disgyblion eu llenwi a'u cyflwyno'n

ddienw trwy flwch post, apiau i roi gwybod ar lein a/neu gyfeiriadau e-bost a grëwyd yn unswydd ar gyfer derbyn adroddiadau o fwlio.

Adroddiadau anuniongyrchol

Mae cynllun mentora cyfoedion yn cynnig cyfle i ddisgyblion roi gwybod am bryderon bwlio trwy gyd-fyfyrrwyr, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r athrawon Yn ogystal â chefnogi disgyblion mewn angen, gall mentoriaid hefyd fod yn ffordd werthfawr i ysgolion fonitro tueddiadau, er enghraifft, trwy ddarganfod 'mannau poeth' penodol lle mae bwlio'n bodoli yn yr ysgol.

Dylai polisi gwrth-fwlio'r ysgol fanylu ar sut y gall rhieni, gofalwyr a phobl ifanc eraill roi gwybod am eu pryderon ynghylch rhywun y credant sy'n cael ei fwlio.

Mae angen ffyrdd eglur ar y staff hefyd i roi gwybod am ddigwyddiadau a welant neu sy'n dod i'w sylw, er enghraifft trwy fod ag arweinydd bwlio dynodedig y gallant siarad ag ef.

Rhestr Wirio

- Sut y gall plant a phobl ifanc roi gwybod am fwlio yn eich ysgol? Ydyn nhw'n gallu rhoi gwybod yn ddienw?
- Ydy'r plant a'r bobl ifanc yn gallu rhoi gwybod trwy fentoriaid sy'n gyfoedion, yn ogystal ag yn uniongyrchol trwy athrawon?
- Sut all athrawon neu aelodau eraill o staff roi gwybod am ddigwyddiadau? A oes gan yr ysgol 'arweinydd' bwlio y gall staff fynd ato i sôn am ei bryderon?
- Sut all rhieni, gofalwyr a phobl ifanc eraill roi gwybod i'r ysgol am eu pryderon ynglŷn â bwlio?

3. Cofnodi ac adolygu digwyddiadau bwlio

Systemau monitro

Dylai cofnodi digwyddiadau bwlio fod yn gyflym ac yn rhwydd er mwyn osgoi gwneud y broses yn un sy'n feichus yn weinyddol i staff sydd eisoes yn gorweithio. Dylai systemau monitro alluogi staff i gofnodi digwyddiadau'n effeithlon ac yn gyson, a'u caniatáu i gynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl er mwyn i'r ysgol allu cynnal ymchwiliad trylwyr i unrhyw ddigwyddiad honedig. Dylai systemau monitro gynnwys ffyrdd o gategoreiddio digwyddiadau yn ôl y modd, (er enghraifft, geiriol, corfforol, seiber) a nodweddion gwarchodedig y disgyblion oedd yn rhan o'r digwyddiad.

Gallai'r rhain fod yn wasanaethau ar-lein 'oddi ar y silff', yn systemau mewnol, neu'n system wybodaeth rheoli ganolog yr ysgol.

Mae angen i staff fod yn ymwybodol o werth cofnodi digwyddiadau. Trwy fonitro a thrin hyd yn oed problemau lefel isel neu achosion unigol o 'alw enw', gall ysgolion ddatrys problemau ymddygiadol cyn iddynt droi'n fwlio, gan arbed amser yn y tymor hir.

Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt systemau ar waith i ymateb i adroddiadau o fwlio yn gyflym, a'u bod yn cymryd pob adroddiad o fwlio o ddifrif.

Arolygon ac archwiliadau

Mae arolygon ar-lein dienw yn gyflym ac yn rhwydd eu sefydlu, a gallant ddarparu 'ciplun' cyflym i'r ysgol o dueddiadau a phryderon cyfredol neu rai sy'n dod i'r amlwg ymhlith disgyblion a theuluoedd, yn ogystal â deall pa mor llwyddiannus fu rhyw ymyriad gwrth-fwlio penodol Fodd bynnag, gall cynnal arolygon yn rhy aml neu ofyn yr un cwestiynau dro ar ôl tro arwain at berygl y bydd yr ymatebwyr yn methu ag ymgysylltu.

Adolygu'r data

Gall sesiynau rheolaidd lle mae staff yn cynnal adolygiadau o ddigwyddiadau bwlio fod yn effeithiol. Maent yn rhoi cyfle i staff a disgyblion wybod y bydd eu pryderon yn cael eu trafod yn brydlon ac y byddant yn destun camau gweithredu penodol, ac mae'r sesiynau'n fwy tebygol o greu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo y gallant roi gwybod am ddigwyddiadau. Gall rhai ysgolion gynnal cyfarfodydd wythnosol i arweinwyr cefnogi disgyblion pob blwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu i staff adolygu digwyddiadau diweddar, dwyn sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a thrafod gweithredu posibl

Gall adolygu data o adroddiadau, arolygon ac archwiliadau am fwlio, helpu i gyfrannu at gyfrifoldebau diogelu'r ysgol, yn ogystal â dealltwriaeth am faterion eraill, er enghraifft absenoldeb disgyblion, anghenion iechyd meddwl a gwaharddiadau

Mabwysiadu cylch parhaus o gasglu a dadansoddi data am ddigwyddiadau bwlio, ac yna adolygu ac addasu polisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant i ymdrin â'r digwyddiadau hynny, yw'r allwedd i sicrhau bod strategaethau ar gyfer atal ac ymateb i fwlio yn cael eu targedu'n addas. Mae lledaenu ymwybyddiaeth hefyd yn hanfodol: dylai pawb yn yr ysgol wybod bod yr ysgol yn cofnodi ac yn monitro pob digwyddiad bwlio.

Rhestr Wirio

- Oes yna dempled syml a hygyrch i staff ei ddefnyddio wrth gofnodi digwyddiadau bwlio neu bryderon ynghylch ymddygiad a allai arwain at fwlio?
- A ydy'ch ysgol chi'n cofnodi pob digwyddiad bwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig a'r math o fwlio?
- Ydy'ch ysgol chi'n cynnal adolygiadau ymhlith disgyblion, staff, rhieni/gofalwyr am fwlio
- Oes yna unigolyn neu dîm penodol sy'n dadansoddi'r data bwlio ar adeg reolaidd?
- Sut mae eich uwch staff yn monitro ac yn gwerthuso digwyddiadau bwlio Pa fecanweithiau sydd ar waith i lywodraethwyr adolygu data bwlio'n rheolaidd er mwyn darparu her a chefnogaeth effeithiol
- Oes yna ffyrdd o asesu a oes cysylltiad rhwng digwyddiadau bwlio a phryderon ehangach am ddisgybl, er enghraifft absenoldeb neu newidiadau cyrhaeddiad, yn ogystal â materion diogelu
- A yw'r ffordd y mae eich ysgol yn dadansoddi data yn eich galluogi i ddod o hyd i dueddiadau neu feysydd pryder sy'n dod i'r amlwg
- Sut fyddwch chi'n defnyddio'ch data bwlio i gyfrannu at eich strategaethau a'ch dulliau gwrth-fwlio

4. Ymwreiddio dull ysgol-gyfan

Gellir ymwreiddio egwyddorion y strategaeth gwrth-fwlio mewn gwahanol agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy wasanaethau'r ysgol, gwersi personol, cymdeithasol, iechyd ac economeg a thrwy'r cwricwlwm ehangach, er enghraifft mewn gwersi Hanes neu Saesneg, lle gellir cynnig cyfleoedd i hyrwyddo negeseuon ynghylch dathlu gwahaniaethau ac amrywiaeth. I gael rhagor o wybodaeth am ddull ysgol-gyfan, gwelwch ein [tips for tackling prejudice-based bullying](https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/tips-tackling-discriminatory-bullying) <<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/tips-tackling-discriminatory-bullying>>.

Rhestr Wirio

- Oes yna gyfleoedd i wella eich modd o gyfathrebu eich neges gwrth-fwlio trwy wasanaethau neu drwy'r cwricwlwm?
- Allwch chi ddefnyddio'r darganfyddiadau o'ch dadansoddiad data i fynd i'r afael â phroblemau yn y dosbarth sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth a chydaddoldeb, neu ar faterion sy'n ymwneud â pharchu hawliau?